# Cwestiwn ac Ateb



**1. Pwy sydd berchen ar adeilad ysgol y Parc?**

Y Cyngor sydd yn berchen yr adeilad, ond trwy brydles (dyddiedig 31 Rhagfyr 1978) mae rhan o safle'r ysgol yn cael ei lesu gan Gyngor Cymuned Llanycil  er mwyn darparu neuadd gymuned ac mae'r adnodd yma yn cael ei rannu gyda'r ysgol.

Nodir yn y lês fod yr eiddo yn cael ei roi ar ymddiriedolaeth ar gyfer neuadd bentref at ddefnydd trigolion cymuned Llanycil. Sefydlwyd pwyllgor ar gyfer rheoli'r elusen a chydnabyddir aelodau'r pwyllgor fel ymddiriedolwyr yr elusen.

**2. Mae ysgol Y Parc yn 'ysgol gymuned' – beth olygir wrth hynny?**

Yn gyfreithiol, fel mwyafrif sylweddol o ysgolion Gwynedd, mae gan Ysgol Y Parc statws ysgol gymuned yn unol â'r Ddeddf Fframwaith Safonau Addysg 1998 (*School Standards and Framework Act 1998*), ac mae hyn yn amlwg yn offeryn llywodraethu'r ysgol.

**3. Yn ogystal, cyfeirir at Ysgol Y Parc fel 'ysgol gymunedol' – beth olygir wrth hynny?**

Mae trefniant yn y Parc (fel yn wir sydd gyda 7 ysgol arall yng Ngwynedd) ble mae adnodd cymunedol yn gysylltiedig â'r ysgol. Yn ddeddfwriaethol, nid oes oblygiadau statudol gwahanol i'r rhelyw o ysgolion y Sir ( h.y.yr oblygiadau o dan y Ddeddf Fframwaith Safonau Addysg 1998), oni bai am yr oblygiadau ddaw o delerau'r brydles sy'n ymwneud efo'r adeilad.

**4. Beth yw oblygiadau'r trefniant ble mae adnodd cymunedol yn gysylltiedig â'r ysgol?**

Ni fyddai'r trefniant yn rhwystr rhag cau'r ysgol, ond byddai rhaid ystyried rhai elfennau yng nghyd-destun trefniant o ddefnydd y gymuned o'r neuadd  sydd ynghlwm â'r ysgol  yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol.

Dyma rai o'r elfennau hynny:

- Mae'r Pennaeth yn derbyn lwfans mewn rôl o gefnogi defnydd cymunedol o'r  cyfleusterau.

- Mae Ymddiriedolwyr yn talu swm blynyddol am ddefnyddio cyfleusterau safle'r ysgol, ond hefyd yn codi incwm wrth ddefnydd o'r cyfleusterau.

- Gan fod Gofalwr (neu'r aelod staff sydd â rôl debyg yn yr ysgol) yn agor a chau'r cyfleusterau ayb – ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn rhoi cymorth i ad-dalu am oramser 'y gofalwr' i'r ysgol. Y gyllideb ar gyfer hynny yn 2009/10 oedd £3719.

Petai'r ysgol yn cau byddai rhaid addasu ac adnabod yr oblygiadau penodol o'r trefniant ac o'r brydles.

**5. Beth yw cynnwys y brydles sydd rhwng y Cyngor ac Ymddiriedolwyr neuadd ysgol y Parc?**

- Gwnaed y brydles rhwng Cyngor Sir Gwynedd a Chyngor Cymuned Llanycil yn prydlesu rhan o fuarth chwarae ysgol Y Parc i'r Cyngor Cymuned ar yr amod eu bod yn adeiladu Canolfan Gymdeithasol y Parc ac yn cydymffurfio â gofynion rhent a chyfamodau eraill y brydles.
- Cyfnod y brydles yw 99mlynedd am rent o £1 y flwyddyn yn daladwy ar 1af o Ionawr pob blwyddyn.
- Hefyd fe nodir fod y Cyngor Cymuned yn ymddiriedolwr Canolfan Gymdeithasol y Parc.
- O ran cyfrifoldebau'r Cyngor, mae gofyniad yma i wneud rhan neu rannau o adeilad yr ysgol ar gael at ddefnydd y gymuned yn ôl gofynion rhesymol y pwyllgor, ac eithrio unrhyw ran a ddefnyddir ar gyfer gofynion addysgiadol yn ystod oriau ysgol.

**6. Beth yw oblygiadau'r lês os fydd Ysgol y Parc yn cau?**

Nid yw bodolaeth y les yn golygu na all y Cyngor weithredu ei bwerau statudol i gau'r ysgol.

Petai'r ysgol yn cau, yna byddai rhaid addasu'r manylion fel rhan o sefydlu trefniadau ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad y safle. Bydd y brydles yn parhau ac yn berthnasol i gynnal y safle i'r dyfodol.

**7. Pa ddewis fydd gan ddisgyblion Ysgol y Parc os caiff yr ysgol ei chau?**

Mae'r cynnig yn nodi y bydd gan blant sy'n byw o fewn dalgylch bresennol Ysgol y Parc 3 dewis os caeir yr ysgol:

- Gwarantir lle i holl blant dalgylch Y Parc yn Ysgol O.M. Edwards, Llanuwchllyn. Hon fyddai ysgol dalgylch Y Parc. Cynigir cludiant am

ddim i Ysgol O.M. Edwards yn unol â Pholisi Cludiant i'r Ysgol yr Awdurdod.

- Cynigir lle i blant dalgylch y Parc mewn ysgol/ion eraill os ydy'r ysgolion hynny yn nes at gartref y disgybl na'r ysgol dalgylch a cynigir cludiant yn unol â'r Polisi Cludiant.
- Mae gan rieni'r hawl statudol i geisio am le i'w plant fel plant all-dalgylch.

**8. Mae cynnig ar gyfer datblygu cwmpas gydol oes yn nhref y Bala, sut gynlluniau ar gyfer campws gydol oes sydd mewn siroedd eraill?**

Nid oes ysgol gydol oes yn bodoli yng Nghymru ar union model a argymhellir ar gyfer dalgylch y Berwyn. Serch hynny, mae yna safleoedd yn bodoli eisoes mewn siroedd eraill sydd yn cynnal ysgolion cynradd, uwchradd, meithrinfeydd, a dapariaethau eraill. Cynhaliwyd ymweliad ar gyfer penaethiaid ysgolion y Berwyn i safle Preseli yn Sir Benfro. Mae'r safle yn darparu meithrinfa, ysgol ardal gynradd, ysgol uwchradd, canolfan dysgu gydol oes, theatr a chanolfan hamdden. Adeiladwyd safle gydol oes pwrpasol yn Rhondda Cynon Taf sydd yn darparu ystod eang o gyfleusterau addysgol a chymunedol.

Mae sir Ceredigion yn datblygu model gydol oes sydd yn fwy cymhathus i'r math o ddatblygiad rhagwelir yn nalgylch y Berwyn, sef i ddatblygu darpariaeth gydol oes wledig o gwmpas prif tref dalgylch. Mae'r sir yn ymgynghori ar hyn o bryd ar ddau gynllun gydol oes. Byddai'r cyntaf yn gweld datblygiad ysgol gydol oes yn nalgylch Llandysul ar gyfer bron 600 o ddisgyblion uwchradd a tua 330 o ddisgyblion cynradd. Byddai'r cynllun yn golygu cau 5 ysgol gynradd. Mae'r ail gynllun yn argymell datblygu ysgol gydol oes yn Nhregaron ar gyfer tua 320 o ddisgyblion uwchradd, a tua'r un nifer o ddisgyblion cynradd. O wireddu'r cynllun yn llawn, byddai hyd at 7 ysgol gynradd yn cau.